

## Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 157 Rhif 40 Hydref 3, 2024 50c.

## Penodiadau CWM

## Pwyllgor Buddsoddion

Y mae'n llawenydd datgan fod Mr Richard Morgan, Aberystwyth wedi ei benodi yn gadeirydd Pwyllgor Buddsodion CWM am y pedair blynedd nesaf, wedi gwasanaethu am dymor eisoes fel aelod o'r pwyllgor hwnnw.

Y mae'n amlwg bod ein cyfeillion yn rheulu CWM wedi adnabod Richard a sylweddoli fod ganddo ddoniau arbennig iawn ym myd arian a chyllid a llywodraethiant sefydliadau. Gwyddom ninnau ers tro byd, wrth gwrs, am ei alluoedd yn y meysydd hyn, ac yn fwy na hynny hefyd, am ei barodrwydd i wasanaethu'n ffyddlon a thawel gan gynnig arweiniad cadarn a diogel.

Profodd yr Undeb hynny dros nifer o flynyddoedd, heb sôn am Ymddiriedolaeth James, Pantyfedwen a Phrifysgol Aberystwyth. Mae yna unigolion a mudiadau lawer ledled Cymru, a thu hwnt wedi ei brofi'n gymwynaswr hael ei gefnogaeth.

Dymunwn yn dda iddo yn y swydd bwysig a chyfrifol hon gan weddio bendith Duw arno ac ar y pwyllgor wrth wasanaethu CWM.

## Aelod o'r Bwrdd

Yng Nghymanfa Durban penodwyd y Parchg Dylan Rhys, Pen-y-bont ar Ogwr yn aelod o Fwrdd CWM dros y pedair blynedd nesaf. Fe'i llongyfarchwn yn gynnes a dymunwn yn dda iddo yn y gwaith.



## Cydyndeimlad

Cydyndeimlwn yn fawr iawn gyda'r Parchg Dylan Rhys, Pen-y-bont ar Ogwr a'i deulu yn y brofedigaeth lem o golli Bethan ei chwaer. Y mae ein meddyliau a'n gweddïau gyda hwy yn eu galar a'u hiraeth.

Nid dieithryn mohono yntau i deulu CWM a'i weithgaredd chwaith. Deil Dylan i ymfalchio'n fawr yn y profiadau ffurfiannol hynny a gafodd yn y cynadleddau gwahanol a fynychodd yn fachgen ifanc, ac yn arbennig felly'r flwyddyn a dreuliodd fel aelod o'r rhaglen TIM (Training in Mission) yn Ne Affrica ac India.

Gyda Dylan yn y llun gwelir un arall o Gymru, Ms Gwen Down o Eglwys Bresbyteriaid Cymru, hithau hefyd yn gyd-aelod o'r bwrdd. Y mae hyn yn destun llawenydd a balchder i ni i gyd.



## Argyfwng Madagascar

Apêl gan Money for Madagascar am gefnogaeth frys

Ar ddydd Gwener, ar 20 Medi 2024, digwyddodd tân ofnadwy yng nghanolfan bechgyn Akany Avoko Bevalala (AAB). Dinistriwyd y lle.

Mae'r ganolfan hon yn gartref i 35 o fechgyn bregus, 10-18 oed, sydd wedi'u lleoli gydag Akany Avoko i'w hamddiffyn, i ofalu amdanynt a'u haddysgu. Mae achos y tân yn destun ymchwiliad trylwyr ar hyn o bryd. Yn ffodus, roedd y bechgyn yn yr ysgol pan ddechreuodd y tân, a diolch i gamau cyflym staff y ganolfan ac awdurdodau lleol, cafodd y tân ei gyfyngu a'i ddiffodd.

Fodd bynnag, mae'r difrod yn helaeth.

- mae holl ystafelloedd cysgu'r bechgyn wedi'u dinistrio'n llwyr, gan gynnwys y to, systemau trydanol, a phaneli solar.
- mae 15 gwely bync a 18 matras wedi'u colli.
- mae 80% o ddillad y bechgyn a'u holl gyflenwadau ysgol wedi'u dinistrio.



- mae eiddo personol y bechgyn hefyd wedi eu colli.

Mae arnom angen eich help ar frys i ddarparu:

- llety dros dro diogel hyd nes y gellir ailadeiladu'r ystafell gysgu.
- dillad a chyflenwadau ysgol i sicrhau bod y bechgyn yn gallu parhau â'u haddysg a chynnal ymdeimlad o normalrwydd yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Ymunwch â ni yn y cyfnod hwn o argyfwng. Bydd eich cefnogaeth yn helpu i roi'r diogelwch, cysur a gofal y mae dirfawr eu hangen ar y plant hyn wrth iddynt wella ar ôl y digwyddiad dinistriol hwn. Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth.

Ewch i wefan annibynwyr.cymru am fwy o wybodaeth neu cyfrannwch drwy wefan: [moneyformadagascar.org](http://moneyformadagascar.org)

# Gwynn Bowyer, 1936-2024

Plentyn hynaf ac unig fab Gwilym a Prydwen Bowyer oedd Gwynn. Ordeiniwyd a sefydlwyd ei dad, yn weinidog Soar, Cwmclydach, Treorci ac yno y ganwyd Gwynn ar 2 Medi 1936. A chymylau bygythiol yr Ail Ryfel Byd yn taflu eu cysgod ar draws y byd, derbyniodd y Parchg Gwilym Bowyer alwad i fugeilio Capel Y Borough, yn Llundain yn 1939. Anfonwyd Gwynn i Benmaenmawr at deulu ei fam, cyn ymgartrefu yn Llan Ffestiniog wedi i'w fam adael y ddinas fawr er mwyn ei diogelwch ei hun.



## Bangor

Symudodd y teulu i Fangor yn 1943 wedi i'w dad dderbyn galwad i fugeilio eglwys Ebeneser, Bangor. Ymhen rhai blynyddoedd penodwyd Gwilym Bowyer yn brifathro Coleg Bala-Bangor a symudodd y teulu, a oedd bellach yn cynnwys ei ddwy chwaer, Mair ac Ann, i Henfryn.

Wedi gorffen ei addysg elfennol, cyflwynodd Gwynn ei hun fel ymgeisydd i'r weinidogaeth ac fe'i hyfforddwyd ym Mala-Bangor a'i ordeinio yn 1960 yng ngofalaeth Ganllwyd, Llanfachraeth, Llanelltud a'r Borth yn Sir Feirionnydd. Symudodd i'r de yn 1966 gan dderbyn galwad i fugeilio eglwys Brynteg, Gorseion.

## Caerfyrddin

Yn dilyn cyfnod yn y weinidogaeth, bu Gwynn yn gweithio i'r Urdd cyn troi at fyd yswiriant, gan dreulio gweddill ei yrfa yn y maes hwn a sefydlu busnes ei hun yng Nghaerfyrddin. Un o ddoniau Gwynn oedd y gallu i sgwrsio â phawb o bob cefndir, diwylliant a chrefydd. Arweiniodd ei daith gerdded ddyddiol i'r dref a'i

gwmni dros baned mewn caffi at iddo ddod yn gymeriad amlwg a phoblogaidd yng Nghaerfyrddin a chylch ei gyfeillion yn eang iawn.

Priododd ag Ann, merch o Gaerffili yn 1974 a bu'r ddau yn byw yn ddedwydd eu byd yng Nghaerfyrddin. Daeth eu busnes gwely a brecwast, Y Dderwen Fach, yn gyrchfan boblogaidd i amrywiaeth o ymwelwyr ar hyd y blynyddoedd a Gwynn wrth ei fodd yn sgwrsio â phawb gan wahodd nifer ohonynt yn eu tro i'r oedfa ar y Sul.

Ymhlith ei amryw gymwynasau, bu Gwynn yn gyfrifol am agor stiwdio BBC Caerfyrddin ar Heol y Prior am flynyddoedd lawer, a daeth i 'nabod nifer o'r newyddiadurwyr. Roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn materion cyfoes, a byddai'n aml yn gwrthio toriad o bapur newydd neu gylchgrawn i law ambell newyddiadurwr, gyda pharagraff wedi'i danlinellu ac awgrym cadarn y dylid ei 'ddilyn i fyny'.

## Annibynnwr

Roedd Gwynn yn heddychwyr ac yn genedlaetholwr o'i goryn i'w sawdl a bu'n egniol iawn ei gyfraniad i'r naill gyfeiriad a'r llall. Bu'n aelod yn eglwys y Priorddy ers nifer o flynyddoedd gan fod yn ffyddlon i bob agwedd ar fywyd yr eglwys ac yn ffrind da a chefnogol i weinidog. Llwyddodd i ddenu sawl aelod newydd i gymdeithas yr eglwys. Roedd yn bresenoldeb cyson, tawel a gwerthfawrogol mewn oedfa ond yn barod iawn i gyfrannu'n llafar mewn cyfarfodydd eglwys. Roedd gan Gwynn y gallu i feddwl y tu fas i'r blwch ac roedd yn ŵr o weledigaeth a phob amser yn llawn syniadau newydd.

Bu'n fynychwr cyson o gyrddau chwarter Gorllewin Caerfyrddin a Chyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg a'i lais i'w glywed yn aml yn herio a phryfocio, ond bob amser yn cyflwyno'r hyn roedd ganddo i'w ddweud mewn modd boneddigaidd iawn. Fel ei dad, roedd Gwynn yn Gristion radical, heb lawer o amser i ddiwinyddiaeth gul. Cofiw'n fod sawl un o'i gynigion yn y cwrdd chwarter wedi cyrraedd lefel genedlaethol gan yr Undeb ac ysgogi ymgyrchoedd i gefnogi hawliau dynol, heddwch a chyfiawnder cymdeithasol, er enghraifft cefnogi Undebau Credyd, gwrthwynebu arfau niwclear yn Ewrop ynghyd ag ymgyrchu i ymwrthod ag ymestyn oriau agor siopau ar y Sul er mwyn cefnogi'r gweithwyr, i

enwi ond ambell beth. Gŵr o ffydd oedd Gwynn Bowyer a'r ffydd honno yn ei yrru i weithredu o blaid cyfiawnder i bawb.

Bu farw'n heddychlon yn Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Glangwili ar 6 Awst, wedi cyfnod byr o salwch. Daeth cynulleidfifa niferus ynghyd i gapel y Priorddy, Caerfyrddin bnawn Llun, 2 Medi i oedfa i ddiolch am ei fywyd a'i waith. Gwasanaethwyd gan ei weinidog, gyda chymorth y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Edward Mathias Jones, Guto Llywelyn, Dyfrig Rees ynghyd ag Alun Lenny. Wedi'r oedfa, ymlwybrodd y teulu i amlosgfa Llanelli. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Ann ei briod, ynghyd ag Ann ei chwaer a'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd.

'Y mae'n newydd loer yfory, a gwelir dy eisiau nawr bod dy le yn wag'

*1 Samuel 20:18*

*Beti-Wyn James*

## GOHEBIAETH

Annwyl Olygyddion,

Ysgrifennaf atoch ar gais Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yn dilyn sylwadau a wnaed yn ein cynhadledd ddiwethaf (12 Medi 2024) o ddarllen am ddyfodol Y Tyst. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn dymuno'ch llongyfarch yn fawr ar gynhyrchu papur mor ddiddorol a bendithiol o wythnos i wythnos. Maent yn awyddus i weld Y Tyst yn parhau o hyd ar ffurf fersiwn printiedig fel cyfrwng i roi llais i ni, yr Annibynnwyr Cymraeg. Does neb yn gwrthwynebu cynhyrchu fersiwn electronig, wrth reswm, ond ni ddylai ddiwydd ar draul gollwng y fersiwn printiedig. Mynegwyd pryder y byddai nifer o bobl hŷn, yn enwedig, yn cael eu siomi'n fawr o golli'r cyswllt pwysig a rheolaidd yma gyda gweithgarwch yr Annibynnwyr. Mae aelodau'r Gynhadledd hefyd yn gweld posibilrwydd arloesi gyda'r fersiwn printiedig drwy ddefnyddio math a lliw ffont a fyddai'n cynorthwyo aelodau sy'n byw gyda dementia. Byddai hynny'n cydyfynd yn dda â'r ymgyrch sydd ar waith i geisio gwneud ein heglwys i gyd yn rhai dementia-gyfeillgar.

Pob dymuniad da i'r Tyst i'r dyfodol

Yn gywir iawn,

**Alun Charles,**

Ysgrifennydd, Cyfundeb Annibynnwyr  
Gorllewin Caerfyrddin

# Yr Adran Gydenwadol

## Gŵyl arbennig ym Mhontypridd i ddathlu bywyd Morfydd Llwyn Owen

Mae gŵyl arbennig i ddathlu bywyd ac etifeddiaeth y cerddor arloesol Morfydd Llwyn Owen wedi ei lansio gan Parc Arts, Gwasanaeth Celfyddydau a Diwylliannol Rhondda Cynon Taf, a Chyngor Tref Pontypridd.

Bydd Gŵyl Morfydd Owen, sy'n cael ei chynnal rhwng 11 a 13 Hydref mewn nifer o leoliadau yn Nhrefforest a Phontypridd, yn ceisio ailsefydlu perthynas y fro ag un o'i henwogion anghofiedig. Roedd Morfydd Owen, neu Morfydd Llwyn Owen, a rhoi iddi ei henw barddol, yn gyfansoddwraig, yn bianydd ac yn gantores nodedig. Yn ystod ei gyrfa fer, enillodd nifer o wobrau a chanmoliaeth hael am ei chyfansoddiadau a'i pherfformiadau.

Fe'i ganed yn Nhrefforest yn 1891 i deulu cerddorol a chrefyddol oedd yn aelodau yn Eglwys Bresbyteriaid y Parc. De

Dechreuodd Morfydd ganu'r piano yn bedair oed, ac erbyn ei bod yn chwe blwydd oed roedd yn cyfansoddi cerddoriaeth.

Enillodd ysgoloriaeth i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ac ar ôl gorffen ei gradd aeth ymlaen i astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol, Llundain. Câi ei chydnabod yn un o fyfyrwyr mwyaf rhagorol ei chenhedlaeth.

Mae ei 250 o lawysgrifau yn cynnwys gweithiau cerddorfaol, siambr a chorawl, caneuon ar eiriau Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg, a threfniannau o alawon gwerin Cymreig a Rwsiaidd.

Achosodd ei phriodas ddirgel â'r seicdreiddiwr Freudaidd Ernest Jones densiynau yn ei bywyd personol a phroffesiynol, a bu farw yn 26 oed yn dilyn llawdriniaeth yng nghartref teulu ei gŵr. Diwedd trasig i yrfa arloesol sy'n parhau i gyffroi ac ysbrydoli.



Bydd Gŵyl Morfydd Owen yn cynnwys cyngherddau, perfformiadau, sgysiau, arddangosfeydd a gweithgareddau i deuluoedd. Bydd y lleoliadau yn cynnwys Capel y Parc, Trefforest, lle mae Prosiect Parc Arts, canolfan gelfyddydau fechan, wedi ei sefydlu'n ddiweddar gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Ac yn briodol iawn, Morfydd Owen, yn ei harddegau, oedd organyddes gyntaf y capel hwn.

Dywedodd Jessica Morgan, Swyddog Prosiect Parc Arts:

'Nid yn unig y mae stori Morfydd yn stori am dalent gerddorol eithriadol, ond mae hefyd yn gwthio'r ffiniau o safbwynt rôl merched yn y gymdeithas. Drwy ddathlu ei hetifeddiaeth, rydym yn gobeithio y bydd yr ŵyl yn rhoi cyfle i bobl o bob oed a chefnidir ym Mhontypridd a thu hwnt i ddychmygu dyfodol newydd iddyn nhw a'u cymunedau.'

Ychwanegodd y Parch. Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys

Bresbyteriaid Cymru: 'Cafodd talent gerddorol Morfydd ei meithrin mewn cartref cariadus ac yng nghymdeithas gynnes Eglwys Bresbyteriaid y Parc. Daeth yn organydd yn y capel yn ifanc iawn, a datblygodd ei chreffft drwy gyfansoddi emyn-donau. Roedd ei ffydd yn ysbrydoliaeth i'w dawn anhygoel ac rydyn ni'n falch fod ei bywyd a'i gwaith yn cael eu dathlu yn yr ŵyl arbennig hon yn ei bro.'

Dywedodd Caysha Frederick, Cyngor Tref Pontypridd:

'Rydym mor falch o ailgysylltu stori ac etifeddiaeth Morfydd Owen â'i thref enedigol, Pontypridd. Roedd hi'n berson gwirioneddol drawiadol a hynod ddiddorol, o'i dawn gerddorol eithriadol i'w chariad at y Gymraeg a'i phenderfyniad i gyflawni y tu hwnt i'r terfynau a osodid ar ferched ei dydd. Drwy ddod at ein gilydd i ddathlu ei llwyddiannau nodedig, rydym yn gobeithio ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o bobl greadigol a dangos faint mae hi'n ei olygu i Bontypridd.'

Dywedodd Jesse Britton, Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliannol Rhondda Cynon Taf: 'Er ei statws ym myd cerddoriaeth glasurol a gwerin, mae Morfydd Llwyn Owen yn parhau i fod yn anhysbys i raddau helaeth yn ei thref enedigol. Ein nod yw newid hynny, gan roi cydnabyddiaeth haeddiannol i dalent anhygoel o'n tref ein hunain – un y gall ei gwaith sefyll ochr yn ochr ag Evan James, James James a hyd yn oed Tom Jones!'

Mae rhaglen lawn yr ŵyl a thocynnau digwyddiadau ar gael ar wefan yr ŵyl: <https://www.morfydd-owen.cymru/>

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

## Gŵyl arbennig ym Mhontypridd i ddathlu bywyd Morfydd Llwyn Owen (parhad o dudalen 1)

Am ddiweddariadau, dilynwch:

Facebook: [/gwylmorfyddowenfestival](#)

Instagram: [@gwylmorfyddowenfestival](#)

YouTube: [@gwylmorfyddowenfestival](#)

Dyma flas o'r hyn fydd ar gael:

Sadwrn, 12 Hydref, 2pm –

Amgueddfa Pontypridd

Llythyrau Morfydd Owen

Bydd actoresau lleol yn darllen o lythyrau Morfydd gan roi cyfle i'r gynulleidfa glywed geiriau Morfydd yn ogystal â'i cherddoriaeth.



Sul, 13 Hydref, 3pm – Parc Arts, Trefforest

Wil Morus Jones – Taith Gerdded

Gan ddechrau yng nghanolfan Parc Arts, capel cartref Morfydd, bydd Wil Morus Jones yn arwain taith gerdded ddifyr, ysgafn o gwmpas strydoedd Trefforest gan ailymweld â safleoedd a manau allweddol yn stori Morfydd Owen. Dewch i ddilyn ôl ei throed drwy'r gymuned a'i lluniodd.

Sul, 13 Hydref, 5 pm – Parc Arts, Trefforest

Bethan Nia a Jess Morgan

Perfformiad arbennig gan Jessica Morgan a Bethan Nia o ganeuon a ysbrydolwyd gan fywyd Morfydd Owen, ei cherddoriaeth a'r ffordd y mae'n dal i ysbrydoli cenedlaethau o artistiaid – yn neilltuol artistiaid benywaidd sy'n byw ym Mhontypridd a Threfforest a'r cyffiniau.

## Rhyfel yn Israel a Gaza – flwyddyn yn ddiweddarach



Wrth i'r Dwyrain Canol agosáu at garreg filltir enbyd blwyddyn ers dechrau'r gwrthdaro diweddaraf, mae Cymorth Cristnogol yn gofyn i gefnogwyr roi, gweithredu a gweddio – gydag ail-lansio ei apêl frys, gwylnos ar-lein a chyfarfodydd gweddi misol.

Mae Cymorth Cristnogol yn eich gwahodd i lofnodi ei [ddeiseb](#) i Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn galw am heddwch cyfiawn, a hefyd i [gysylltu â'ch Aelodau Seneddol](#) yn San Steffan yn eu hannog i gefnogi cadoediad. Ar ben-blwydd cyntaf y gwrthdaro presennol, fe gynhelir gwylnos ar-lein am **8am ddydd Llun, 7 Hydref**. Cofrestrwch drwy'r [wefan](#).

Eglurodd Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru: “Mae ein cefnogwyr wedi bod yn anhygoel fel bob amser, gan godi dros £2.2 miliwn hyd yn hyn. Mae hyn wedi ein helpu i gyrraedd dros 800,000 o bobl yn Gaza trwy ein partneriaid lleol, gyda'r canlynol:

- arian parod i deuluoedd sydd wedi'u dadleoli;
- cymorth meddygol mewn clinigau iechyd symodol;
- anghenion sylfaenol fel bwyd, dŵr, blancedi a matresi a lloches, gan gynnwys sefydlu gwerysll hygyrch i bobl ag anableddau.

“Mae Cymorth Cristnogol hefyd wedi bod yn gweithio gyda sefydliad cymdeithas sifil Israelaidd yn Tel Aviv, gan eu cefnogi i ddarparu manau diogel i ymgynnull yn dilyn trawma 7 Hydref y llynedd. Ond mae'r angen yn enfawr ac mae mwy y gallwn ei wneud, a dyna pam ein bod yn ail-lansio ein [hapêl Gaza](#). Gyda chefnogaeth a gweddïau ein cefnogwyr, gall Cymorth Cristnogol gyrraedd mwy o bobl gyda'r cymorth sydd ei angen arnynt.”

## Sul Digartrefedd – 6 Hydref 2024



Mae Housing Justice, sy'n aelod o Cytûn, yn trefnu Sul Digartrefedd ar y Sul cyn Diwrnod Digartrefedd y Byd bob blwyddyn, ac mae Sul Digartrefedd eleni yn digwydd ar 6 Hydref. Y thema yw 'Cymunedau sy'n rhoi diwedd ar Ddigartrefedd' gan fod y rôl y mae eglwysi a chymunedau yn ei chwarae wrth ddileu digartrefedd lleol yn hollbwysig.

Cewch amrywiaeth o adnoddau (Saesneg yn unig a pheth gwybodaeth yn Gymraeg) i'w defnyddio ac i bori ynddyn nhw [yma](#) os ydych yn cynllunio oedfa Sul Digartrefedd naill ai ar 6 Hydref neu ar ddyddiad arall o'ch dewis. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys gweddïau wedi'u recordio ymlaen llaw, emynau, homilïau, adnoddau'r Ysgol Sul, gwybodaeth am ddigartrefedd yng Nghymru, a llawer mwy. Rhowch wybod i Housing Justice beth rydych chi'n ei gynllunio trwy e-bostio Joanna Whitney [yma](#).

## Caneuon Ffydd – Mynegai Ysgrhythurol

Mae llawer iawn o'n hemynau yn dyfynnu o'r ysgrythur neu yn cyfeirio at rannau ohoni, a gall fod yn ddefnyddiol i'r sawl sy'n llunio oedfaon i weld ble mewn emyn y ceir dyfyniad neu gyfeiriad at ryw adnod benodol neu ryw ran o'r Beibl.


Gyda hynny mewn golwg, paratowyd Mynegai Ysgrhythurol i *Caneuon Ffydd*, yn y gobaith y gall fod o gymorth i'r sawl sy'n arwain gwasanaethau.

Gellir gweld y mynegai ar wefan *Caneuon Ffydd*, <https://caneuonffydd.cymru/mynegai>, a gellir ei lawrlwytho oddi yno.

Rhidian Griffiths  
Cadeirydd Pwyllgor Caneuon Ffydd

## Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr

gan Gareth Lloyd Jones  
(Cyhoeddiadau'r Gair)



Cyfes o astudiaethau gan y Parch. W. Bryn Williams ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* gan Gareth Lloyd Jones

### 4. 'Dwy wraig weddw yn cyrraedd Bethlehem' (Ruth 1:19–22)

Mae dros ddeng mlynedd wedi mynd heibio ers i Naomi, ei gŵr a'i dau fab adael Bethlehem. Wrth gychwyn am Moab roedd Naomi'n ddiogel yng nghwmni tri dyn, ond wrth iddi gyrraedd yn ôl mae'r sefyllfa'n wahanol iawn. Erbyn hyn mae hi'n un o ddwy wraig weddw ac yn amddifad – yn amddifad o'i meibion a heb ei bendithio ag wyrion chwaith.

Mae eu presenoldeb ym Methlehem yn destun siarad i'r 'holl dref', gan awgrymu bod Naomi ar un adeg wedi perthyn i deulu amlwg o'r dref honno. Efallai hefyd fod Elimelech a hithau wedi wynebu gwrthwynebiad neu feirniadaeth, a hyd yn oed 'edliw' am feddwl disgwyl cael gwell bywyd yn Moab.

Beth bynnag am hynny, ymateb merched Bethlehem ydy gofyn, 'Ai Naomi yw hon?' Mae hithau wedyn yn gwahardd i'r merched ei galw wrth ei henw (gan fod ei henw'n golygu 'daioni prydferth') ac yn gofyn yn hytrach iddynt ei galw'n 'Mara', sy'n golygu 'chwerw'. Trist, yntê, fod Naomi yn personoli tristwch ei sefyllfa hefo enw newydd arni ei hun.

Mae Naomi hefyd yn cyfeirio at chwerwder yr 'Hollalluog' tuag ati. Y gair Hebraeg am 'Hollalluog' ydy 'El Shaddai', sy'n golygu'r 'un sy'n gallu gwneud pob dim'. Iddi hi, mae'r un sy'n gallu gwneud popeth felly'n chwerw wrthi. Fel hyn mae Naomi yn dadansoddi ei sefyllfa, yn hollol resymegol yn y cyfan ac yn eithafol wrth gyfarch y gwragedd, fod yr 'ARGLWYDD wedi tystio i'm herbyn'. Ac wrth gyfeirio bod yr 'ARGLWYDD', sef yr enw

personol ar Dduw (yn Hebraeg, YAHWEH), wedi dwyn tystiolaeth yn ei herbyn, mae'n gweld ei dedfryd yn ei hamgylchiadau. Mae'n credu bod Duw yn bersonol yn gyfrifol am ei chosbi, ac yn derbyn ei hamgylchiadau fel cosb am y penderfyniad i fynd i Moab dros ddeng mlynedd ynghynt. Yn ddiwinyddol yma, mae golwg Naomi ar Dduw yn gyfyng ac yn oddrychol. Yn Naomi, welwn ni ddim o brofiad Eseaia ym mhennod 38:17, 'Wele, er lles y bu'r holl chwerwder hwn i mi; yn dy gariad dygaist fi o bwl distryw a thafu fy holl bechodau y tu ôl i'th gefn.'

Ond er bod Naomi'n cyfleu ei sefyllfa'n gwbl anobeithiol i ferched Bethlehem, mae hi'n ddirifol o esgeulus wrth beidio â chyfeirio at gwmni ei merch yng nghyfraith, Ruth. Tydi hi ddim ar ei phen ei hun; mae Ruth hefo hi. Ruth oedd wedi 'glyn' wrthi (adn. 14). Ruth oedd wedi addo'i theyrngarwch iddi hyd farwolaeth (adn. 17). Yn ei 'chwerwder' ei hun mae Naomi yn canolbwyntio ar ei cholledion ac yn hollol ddall i'r hyn sydd eto o'i phlaid. Dewis cyfleu amgylchiadau ei bywyd drwy sbectol chwerw mae Naomi, ac wrth wneud hynny mae'n ddall i'r hyn sydd o hyd o'i phlaid mewn gwirionedd – Ruth.

Duw, yn ei gariad, ddaeth â Naomi yn ôl i Fethlehem. Duw cariad yn dewis gwneud iddi, yn ôl ei henw, y 'daioni prydferth'. Dod â hi i Fethlehem y pryd hwnnw, 'yn nechrau'r cynhaeaf haidd', er mwyn iddi ymestyn ato a'i weld yn 'tystio', nid yn ei herbyn ond o'i phlaid.

#### Cwestiynau i'w trafod:

1. Wrth feddwl am ferched Bethlehem, ai gofal ynteu beirniadaeth oedd tu ôl i'r 'cyffro'?
2. Sut olwg ar Dduw sydd gan Naomi wrth gyrraedd Bethlehem?
3. Meddyliwch sut roedd Ruth yn teimlo wrth glywed Naomi'n cyfarch merched Bethlehem.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*  
Sul, 6 Hydref – dim rhaglen

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*  
Sul, 6 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Gwynfryn

*Oedfa Radio Cymru*

Sul, 6 Hydref, am 12:00yp

Oedfa dan ofal Marian Jones, Wrecsam

YMUWCH CYDA NI  
AM STORI A HWYL

EIN STORI NESAF FYDD  
GLAW, GLAW  
A MWY O LAW

www.ysgolsul.com

CROESO  
CYNNES I BAWB

SESIWN 4  
GENESIS 7,8

Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru)


I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Yr Efengyl yn iaith Shir Bemro

Oeddech chi yn gwybod fod y Beibl ar gael yn iaith Sir Benfro?

Mae ar gael a gellir darllen y Pedair Efengyl yn iaith Sir Benfro. Gwnaed y gwaith mawr o addasu'r Efengylau i dafodiaith y sir gan un o frodorion Sir Benfro sef y diweddar Lyn Lewis Dafis a hynny tua'r flwyddyn 2000 a diolch iddo am y gwaith rhyfeddol yma.



'Nôl yn yr haf fe wnaeth dau o Bethel, Llanddewi sef Pamela Lewis a Tudor Eynon ddarllen 'Y Mab Afradlon' yn iaith Sir Benfro mewn oedfa. Gellir gweld fideo ohonynt yn gwneud hyn ar dudalen Facebook Bethel, Llanddewi a thudalen Facebook Cyfundeb Annibynwyr Penfro ar 4 Awst eleni.

A oes rhywun o ddarllenwyr *Y Tyst* yn gwybod mwy o'r hanes sut yr aethpwyd

ati i addasu y Beibl i iaith Sir Benfro? Byddai'n ddiddorol gwybod.

Gellir gweld yr Efengylau yn iaith Sir Benfro drwy lawrlwytho Ap Beibl ar eich ffôn neu drwy deipio 'Y Beder Ifengyl 2000' mewn i'ch cyfrifiadur.

Dyma flas o'r Beibl yn iaith Sir Benfro gan Lyn Lewis Dafis gyda dechrau y Bregeth ar y Mynydd (Mathew 5)

Pan welo Iesu'r crowde âth e lan i'r mini. Ishteddodd e lawr fan'ny, a dâth 'i ddisgiblion ato. Dachreuodd e 'u disgu nwy, a gweud,

“Na jecôs yw'r rhei sy'n gwobod bo nwy miwn ishe;

achos nwy sy pia Teyrnas Dduw.

'Na jecôs yw'r rhei sy'n mwyno;

achos gewn nhwy gisur.

'Na jecôs yw'r rhei mwyned;

achos nhwy bydd pia'r ddeiar.

'Na jecôs yw'r rhei sy'n llwgu a'n

sichedu am beth sy'n iawn;

achos gewn nhwy ddigon.”

Guto Llywelyn

## Hydref: Mis Hanes Pobl Ddu

Yn flynyddol bellach y mae mis Hydref yng ngwledydd Prydain yn Fis Hanes Pobl Ddu a hynny ers 1987. Dywed Richard Reddie, Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiad yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon:



'Rhydd hyn gyfle i bawb rannu, dathlu a deall effaith treftadaeth a diwylliant Pobl Ddu ar Brydain.'

Daeth y mis i fwy o amlygrwydd yn sgil mudiad "Black Lives Matter" yn 2020, o ganlyniad i lofruddiaeth George Floyd. Cynhelir digwyddiadau bellach ar hyd a lled Prydain er mwyn dathlu'r mis. Ar y dechrau roedd y pwyslais yn bennaf at y Parchg Dr Martin Luther King ar ymgyrch hawliau sifil yn UDA a'r Fasnach Gaethweision a'i gysylltiadau gyda'r Caribî ac Affrica. Ond erbyn hyn symudodd y pwyslais at hanes a chyfraniad gwerthfawr pobl ddu yng ngwledydd Prydain. Tra digwyddai'r newid hwn cyhoeddwyd nifer o lyfrau

ysgolheigaidd yn olrhain hanes pobl ddu yn y cyfnodau Tuduraidd, Sioraidd a Fictoriaidd. Hefyd aethpwyd ati i grynhoi hanes pobl ddu oedd yn y lluoedd arfog yn ystod y ddau ryfel byd. Datblygiad arall oedd bod rhai mudiadau treftadaeth wedi dechrau defnyddio glaniad yr *HMT Empire Windrush*, a ddaeth a phobl ddu o'r Caribî i Brydain ym 1948, fel ffordd i

bwysleisio dylanwad pobl ddu yma yn ail hanner yr 20fed ganrif.

### Effaith *Windrush*

Un canlyniad diddorol i ddyfodiad pobl ar y *Windrush*, a phobl a ddaeth ar eu holau, oedd y buont yn ddylanwad adnewyddol o fewn i eglwysi oherwydd eu ffydd Gristnogol gadarn. Gwelwyd y dylanwad hwn o fewn i'r Eglwys Anglicanaidd yn Lloegr ac yn y cynnydd mawr fu mewn eglwysi Pentecostal du, sydd wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus. Er mwyn dysgu mwy am hwn gallwch ddarllen gweithiau ysgolheigion du fel Mark Sturge, Marcia Dixon, Dr Israel Olafinjana and Dr R. David Muir.

## Eglwys Nebo Felindre Abertawe

Cynhelir

### OEDFA ARBENNIG

i ddathlu

**Daucanmlwyddiant yr eglwys**

**Dydd Sadwrn 19 Hydref 2024**

**am 2.00.**

**Llywydd:**

**Y Parchg Meirion Evans  
Porth Tywyn**

**Croeso cynnes i bawb**

**Te'r dathlu, wedi'r oedfa,  
yn neuadd y pentref**

**Maes parcio: neuadd y pentref**

Rhaid ystyried hefyd fod hyn yn dod yn fwyfwy perthnasol inni fel eglwysi Cymraeg. Ar hyn o bryd ychydig iawn o bobl ddu sy'n aelodau o'n cynulleidfaoedd. Rydym yn parhau i fod yn eglwysi eithriadol o wyn. Ond mae'r gymdeithas yn newid yn sydyn yng Nghymru ac mae mwy o bobl o gefndir du yn siarad Cymraeg ac yn cael addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai cael rhagor ohonynt yn ein plith fel eglwysi yn cyfoethogi ein profiad ac yn dod ag egni newydd.

## Barn Annibynnol

### 'The Big Man Upstairs'

'Ti'n fisi heddi?'

'Na, dim felni. Wedi bod i'r ysgol Sul.

Mynd i'r cwrdd erbyn dou.'

'O joio 'de. Cofia fi at y *Big Man Upstairs* 'de.'

Sgwrs fach gydag un o'm ffrindiau rhyw fore Sul. Dyw e ddim yn anarferol. Efallai bydde rhai'n ei weld e'n amharchus.

Ond wnes i ddim. Ond fe wnaeth i mi bendroni. Beth ma hi'n feddwl ynghylch bod yn Gristion? Ydy'r person 'ma'n deall pwy yw Duw? Yn adnabod Iesu? Shwd ma' hi'n teimlo tuag at grefydd a Christnogaeth?

#### Pendroni

Wrth feddwl a phendroni amdani, roedd e'n uwchleuo'r hyn ddylwn i fod yn gofyn iddi. Yr hyn ddylwn i fod yn ei rannu am fy mherthynas i â Duw ac am bwy yw Iesu Grist. Ei fod e'n Waredwr. Ei fod e'n Frenin. Ond wnes i ddim.

A beth mae'r person hwn – a llawer o bobl ifanc erbyn hyn – yn ei feddwl sy'n mynd ymlaen o fewn muriau'n capeli ni? Ro'n i'n ffodus o gael fy nghodi mewn teulu hynod grefyddol, lle'r oedd teuluoedd fy nhad a'm mam yn mynd, ac yn parhau i fynd, i'r capel ac ymwneud

â'r gymuned Gristnogol a digwyddiadau cysylltiedig o hyd. Ond roedd fy mrodyr wedi cael eu codi yn yr un ffordd hefyd, ond dyn nhw ddim yn dod i'r cwrdd ac yn gwneud y pethau hynny. A beth am y bobl ifanc yma sydd yr un oed â fi sydd heb weld ymhellach nag ambell gyfarfod ysgol Sul?

#### Dim ofn mentro

Does arna i ddim ofn mentro i wneud rhywbeth ar fy mhen fy hun gan fy mod yn gwybod fod Duw trwy Iesu Grist gyda mi bob amser. Dwi ddim ofn bod yr unig berson i wneud rhywbeth. Dyw e ddim yn golygu 'mod i'n mwynhau bod yr unig un, ond dwi'n mwynhau bod yng nghanol pobl sy'n rhannu'r ffydd.

Ond mae'r capeli'n gwacáu. Mae'r gynulleidfa'n fach ac yn heneiddio. Sut mae denu mwy? Ydyn ni'n mynd i aros am ddiwygiad mawr?

#### Dal i fynd

Wel mae angen cadw i fynd wrth gwrs. Gadael i'n ffydd ein cario a gadael i Grist weithio trwom ni. Agor drysau, peidio bod ofn newid. Ma newid yn beth hynod o anodd – ac yn anoddach fyth wrth fynd yn hyn. Ond dewch, mae'n rhaid meddwl yn bositif a siarad yn fwy agored am ein ffydd.

#### Cwpan hanner llawn

Gyda thymor diolch diddiwedd y cyrddau Diolchgarwch, gadewch i ni droi ein



golygon at ddiolch am yr hyn sydd gennym. Diolch am ddillad i'w golchi sy'n golygu ein bod yn cadw'n gynnes. Diolch am gartref i'w lanhau sy'n golygu fod to uwch ein pennau. Diolch am gael eistedd mewn capel o 6 person sydd wedi gadael i'w ffydd i'w gyrru yno. Mae'n rhywydd iawn cwyno. Mae'n rhywydd iawn anghofio. Ond pan welwn y cwpan yn hanner llawn, mae'n tynnu'r gorau allan ohonom. Gadewch i'r positifrwydd hynny fod yn oleuni yr hydref a'r gaeaf hwn i ddenu ac annog pobl i gydio yn y ffydd ac i ymuno ar y daith i ddysgu ac adnabod Iesu'n well.

#### Gwennan Evans

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## Chwyldro digidol

Yn hanes dynoliaeth y mae nifer o chwyldroadau byd-eang wedi digwydd. Datblygiad amaethyddiaeth a'r ddawn i gynhyrchu cynydu, yr Ymoleuo (*Enlightenment*) a hefyd y chwyldro diwydiannol, dyfodiad y trê, awyrennau, trydan ac awyrennau. Ond yn ddiweddar rydym ni fel cenhedlaeth wedi bod yn dystion i chwyldro arall sef y chwyldro cyfrifiadurol neu ddiigidol.

#### Pa gyfeiriad?

Un o'r pethau sy'n wahanol yn y chwyldro digidol yw nad ydym yn siŵr i ba gyfeiriad y bydd yn mynd nesaf. Mae elfennau eithriadol o fendithiol iddo gyda chyfathrebu rhwydd, ffynonellau rhannu a chanfod gwybodaeth chwim ac effeithiol. Y mae wedi agor y byd cyfan inni mewn ffordd nad oeddem yn gallu ei ddychmygu, hyd yn oed 30 mlynedd yn ôl.

#### Mewn trawiad amrant

Ond wrth gwrs mae hyn i gyd wedi digwydd mewn cyfnod eithriadol o fyr. Pan oeddwn i yn yr ysgol uwchradd yn y

70au roedd y cyfrifiadurol cyntefig oedd yno yn defnyddio cardiau i'w rhaglennu ac yn gweithio (yn eithriadol o hamddenol) trwy gysylltiad ffôn a chyfrifiadurol y brifysgol. Ystyriwch hyn. Ar 6 Awst 1991 fe ryddhaodd Tim Berners-Lee yn rhad ac am ddim y cod oedd yn galluogi pobl i greu a gweld tudalennau ar y we ynghyd â'r porwr gwe cyntaf. Yna datblygodd pethau'n eithriadol o chwim. Ymddangosodd Google ar ein sgriniau am y tro cyntaf ar 4 Medi 1998. Lanswyd Facebook ar 4 Chwefror 2004 gan Mark Zuckerberg, Eduardo Saverin, Andrew McCollum, Dustin Moskovitz, and Chris Hughes. Cofrestrwyd YouTube ar 14 Chwefror 2005. Sefydlwyd WhatsApp ym mis Chwefror 2009 gan Brian Acton a Jan Koum. Gwelodd Instagram olau dydd ar 6



Hydref 2010 a dim ond ym mis Medi 2016 y ganwyd TikTok sy'n cael ei ddefnyddio bellach gan 1 biliwn o ddefnyddwyr yn fisol. A bellach y mae'r rhain ar ffonau symudol biliynau o bobl yn fyd-eang a'u dylanwad yn enfawr ar unigolion a chymdeithas.

Ar ben hynny ni all llywodraethau reoli beth yw'r cynnwys a roddir arnynt oherwydd eu bod yn gyfryngau agored, hynny yw, gall unrhyw un roi deunydd arnynt yn ddilyffethair, maent hefyd yn croesi ffiniau rhyngwladol ac ni ellir eu ffrwyno. A thestun pryder i lawer yw'r dylanwad sydd ganddynt ar unigolion ac yn enwedig ar blant a phobl ifanc.

#### AI

Y datblygiad diweddaraf yw Deallusrwydd Artiffisial (AI) sydd eto'n



**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**

**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
Ffôn: 02920 490582  
E-bost: [tyst@annibynwyr.cymru](mailto:tyst@annibynwyr.cymru)

**Golygyddion**

**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: [IwanLlew@aol.com](mailto:IwanLlew@aol.com)

**Alun Lenny**  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: [alunlenny@hotmail.co.uk](mailto:alunlenny@hotmail.co.uk)

**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe**  
ABERTAWA SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888  
E-bost: [undeb@annibynwyr.cymru](mailto:undeb@annibynwyr.cymru)

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan  
Bwyllgor Llywio'r Adran  
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Chwyldro digidol – parhad

wych ac yn frawychus ar yr un pryd. Fe gymer amser i ddynoliaeth ymateb i hyn a gweld ei wir arwyddocâd. Yn sicr y mae'n newid ein ffordd o fyw. Dau gan mlynedd yn ôl roedd yn cymryd wythnosau i newyddion deithio o'r cyfandir i Gymru. Bellach gellir bod yn dyst trwy ffrwd byw i ddigwyddiadau mewn unrhyw ran o'r ddaear.



allan i'n cylch cydnabod fod yn drymach ar unigolion na'u heglwysi, eu cymuned a'u teuluoedd. Mae hyn yn eithriadol o bryderus wrth feddwl am blant ac ieuenctid. Ar hyn o bryd nid oes posibil ffrwyno'r deunydd ar ein teclynnau ac o ganlyniad gallwn weld, clywed a darllen pethau drwg, ffaidd a niweidiol. Mae hyn yn peri gofid oherwydd gall y cyfryngau cymdeithasol danseilio teuluoedd, cymunedau, eglwysi a gwladwriaethau.

**Algorithmau**

Yn gefn i'r modd y mae'r meddalwedd yn gweithio ar ein technoleg y mae'r algorithmau. Mae'r rhain yn cywain gwybodaeth amdanom ac am ein harferion gwyllo gan addasu'r hyn sydd yn ein ffrydiau fel ein bod yn derbyn pethau tebyg neu hysbysebion gan gwmnïau masnachol gyda chynnyrch y tybient sydd at ein dant. Trwy'r algorithmau gall llywodraethau, cwmnïau neu ddrwgweithredwyr dargedu pobl er mwyn eu bwydo gydag egwyddorion, daliadau gwleidyddol neu gynnyrch i'w gwerthu. Hefyd wrth gwrs y tebygolrwydd yw bod modd ysbio arnom trwy ein teclynnau yn ôl y galw ac o bosib y mae'r wybodaeth honno'n cael ei werthu i gwmnïau.

**Doethineb**

Ond beth yw ein hymateb fel Cristnogion i hyn? Rhaid bod yn synhwyrol gan sylweddoli na allwn wrthsefyll y don

dechnolegol. Gallwn eu defnyddio fel cyfryngau i rannu'r newyddion da am Iesu. Ond hefyd rhaid bod yn ddoeth ac ar ein gwyladwriaeth rhag dylanwadau drwg sy'n tansilio ffydd ac sy'n groes i ewylllys Duw. Yn hyn o beth rhaid annog ein gilydd i osgoi treulio gormod o amser yn rhythu fel lloi ar bethau disylwedd a diffaith ar ein ffonau a'n cyfrifiaduron gan neilltuo amser i ddarllen ein Beibl, (er, gellir gwneud hynny ar y ffôn hefyd) gweddio, addoli a gwasanaethu ein cyddyn. Rhaid rhybuddio plant a phobl ifanc am y pethau drwg a niweidiol ar y cyfryngau hyn sy'n gallu eu niweidio.

Gwn mai dim ond crafu'r wyneb ydwyf yn yr erthygl hon. Ond yn y chwyldro hwn y mae pethau pwysig y dylem eu hystyried a'u gwyntyllu.

Rwy'n siŵr bod rhai o ddarllenwyr Y Tyst yn llawer mwy gwybod na fi yn y maes hwn. Beth am i chi anfon gair sy'n datblygu'r drafodaeth hon ymhellach?

**Sut y mae yn effeithio arnom?**

Mae'r oblygiadau yn enfawr. Mae'r dechnoleg hon yn galluogi pobl sydd â'r un diddordeb i gysylltu yn rhwydd gyda'i gilydd dros ffiniau gwledydd a chyfandiroedd gan greu cymunedau o bobl debyg. Bellach mae pobl weithiau gyda mwy o gonsŷm am yr hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill nac yn eu cymunedau eu hunain. Gall hyn fod yn beth da ac yn beth niweidiol. Am y tro cyntaf erioed gall dylanwad pobl o'r tu



Eglwysi Bethesda'r Tymbl, Capel Seion  
Drefach a Nasareth Pontiets

Bydd ein Gweinidog Y Parch Gwyn Elfyn yn ymddeol ar ddiwedd Rhagfyr 2024 ac mae swyddogion ac aelodau y dair Eglwys yn dymuno galw Gweinidog newydd.

Gwahoddir Gweinidogion ordeiniedig neu rai o dan hyfforddiant i gysylltu er mwyn cael mwy o fanylion gydag un o'r canlynol:-

**Elen Davies**

E-bost: [elentyrdynol@yahoo.co.uk](mailto:elentyrdynol@yahoo.co.uk)  
Rhif ffon: 07742 560478

neu

**Heddwyn Jones**


E-bost: [dacefit240@yahoo.co.uk](mailto:dacefit240@yahoo.co.uk)  
Rhif ffon: 07773 959533

neu

**Gethin Thomas**

E-bost: [gethintthomas@googlemail.com](mailto:gethintthomas@googlemail.com)  
Rhif ffon: 07773 688769

Cysyllter erbyn Hydref 31ain 2024



**O Ysbrud byw, dylifa drwom,  
bywha dy waith â grym y groes.  
O Ysbrud byw, turd, gweithia yn om,  
cymhwysa ni i her ein hoes.**

ELIZABETH PORTER HEAD, 1850-1925  
Cof. E. H. GRIFFITHS